

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor ar nos Iau 10fed o Fai 2018 yn Y Swyddfa, Parc Menai am 7pm.

Cyfarfod Blynyddol

Agenda

Gweddi a gair o groeso

Cod Ymddygiad

Ymddiheuriadau

Derbyn Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Mai 11eg 2017

Derbyn Mantolen Ariannol am y flwyddyn 2017/2018

Adroddiad y Cadeirydd

Cadarnhau/Ethol Swyddogion:

Cadeirydd

Is Gadeirydd

Ethol Cynrychiolwyr ar yr Is Bwyllgorau

Dilynir yn syth gan gyfarfod Mis Mai o'r Cyngor.

CYNGOR CYMUNED PENTIR

CYFARFOD BLYNYDDOL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR YR 11/05/2017

Presennol:

Cyng Dafydd Jones Morris (Cadeirydd)

Cyng Dewi Jones, Jean Pierce, Richard Jones, Lowri James, Bernard Jones, Menna Baines a Cynrig Hughes

Mr Richard Gwynedd Roberts

Elwyn Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Cyng Anwen Thomas.

Traddodwyd Gweddi gan y Cyng Dewi W Jones

Yn ei sylwadau agoriadol croesawodd y Cadeirydd Cyng Menna Baines ar gael ei ethol yn Gyngorydd Sir Ward Pentir ac wrth gwrs yn gyngorydd cymuned dros ward Y Faenol ar y Cyngor hwn.

Llongyfarchwyd a chrosawwyd yn ol y Cyng Cynrig E Hughes ar ei ethol yn Gyngorydd Cymunedol dros ward Glasinfryn.

Ymhellach llongyfarchwyd y Clerc ar gael ei ethol yn Gyngorydd Sir dros ward Penisarwaun

1. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol gynhaliwyd 12eg o Fai 2016 a materion yn codi.

1.1 – Derbyn Cofnodion

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

1.2 – Materion yn codi o'r cofnodion

Ymddiriedolwyr y Fynwent – Yn dilyn Etholiad Mai 2017 mae angen cadarnhau pwy yw'r ymddiriedolwyr y fynwent.

2. Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol 2015-16

Derbyniwyd cyfrifon am y flwyddyn 2016-17 ynghyd a'r adroddiad ariannol. Diolchwyd i'r Cyng Jean Pierce am gynorthwyo'r Clerc gyda'r cyfrifon yn sgil ymholiadau oedd wedi codi gan yr archwilwyr allannol BDO parthed cyfrifon 2015-16 oedd bellach wedi eu cyfarch.

'Roedd popeth bellach yn barod i'w cyflwyno i'r archwiliwr mewnnol Mr J D Roberts.

3. Adroddiad y Cadeirydd

Amlinellodd y Cadeirydd ei bod wedi bod yn flwyddyn ddiddorol am amryw reswm a ein bod wedi cyrraedd bellach sefyllfa ariannol dderbynniol yn sgil prosiectau oedd wedi digwydd dros y 18 mis blaenorol pan osodwyd Cysgodfannau, Hysbysfyrdau, Mapiau, bocsus Blodau yn ogystal a ymdrin a phroblemau y sistem garffosiaeth yn y ganolfan yn Glasinfryn

Teimlai ei bod wedi bod yn fanteisiol penodi dau weithiwr ar y cychwyn, er oherwydd amgylchiadau fod Llyr bellach wedi ein gadael ag Elwyn wedi ymgymeryd a'r ddwy elfen o'r gwaith.

Datblygiad arall oedd sefydlu y ddau Is-Bwyllgor i gyfarch eu gilydd wrth i'r Is Bwyllgor asedau ddarganfod prosiectau, eu costio, a'u cyflwyno i'r Is-Bwyllgor Cyllid i weld os ydynt yn dod o fewn ein cyllideb. Diolchodd i Elwyn am eu hymdrech a'i waith caled.

Diolchodd hefyd i aelodau'r cyngor am eu holl cefnogaeth gyda phawb yn chwarae eu rhan drwy fynychu nid yn unig y cyngor ond yr is-bwyllgorau hefyd.
Caewyd yr adroddiad drwy nodi mai canolbwyntio ar edrych ymlaen i'r flwyddyn o'n blaenau oedd ei angen rwan, yn enwedig symyd ymlaen gyda datblygiad a phrydles y Ganolfan ym Mhenrhosgarnedd.

4. Ethol Swyddogion

4.1 – Ethol Cadeirydd

'Roedd y Cadeirydd presennol wedi traelio 2 flynedd yn ei swydd ag yn awyddus i sefyll i lawr ond gan fod y ddau Gadeirydd blaenorol wedi bod yn y gadair am ddwy flynedd hefyd nid oedd yr un o'r ddau yn or-awyddus i gael eu ail-ethol.

Nid oedd y Cyn Is Gadeirydd wedi ei ethol ond yn hapus i'w gyf-ethol. Oherwydd nad oedd yn aelod nid oedd posib iddo symud i fyny yn Gadeirydd hyd nes y byddai wedi cael ei gyf-ethol

Cynigwyd gan BJ bod Cyng Cynrig E Hughes yn ymgymeryd a'r gadair. Credai oherwydd ei brofiad blaenorol gyda'r Cyngor y byddai yn hapus i ymgymeryd 'a'r swydd

Eilwyd y cynnig gan Cyng L James

Y Cyngor yn unfrydol o'r farn i benodi Cyng Cynrig Hughes yn Gadeirydd. **Derbyniodd y Swydd**

4.2 – Ethol Is-Gadeirydd

Fel nodwyd uchod gan nad oedd y cyn Is Gadeirydd bellach yn gynghorydd nid oedd yn bosib ei wthio ymlaen y Gadeirydd. Oherwydd hynny 'roddodd Cyng Jean Pierse enw Cyng Richard Jones ymlaen ag eilwyd y cynnig gan Cyng Dewi W Jones **Derbyniodd Cyng Richard Jones y swydd**

4.3 – Aelodaeth o'r Is-Bwyllgorau

Cytuniwyd i aelodaeth Is Bwyllgor Cyllid aros fel ag y mae sef Cyng Lowri James (Cad) Cyng Dewi w Jones, Cyng Dafydd Jones-Morris Cyng Jean Pierce a'r Cyng Bernard Jones.

Byddai Cynghorwyr Menna Baines yn mynychu'r Is Bwyllgor Asedau

Byddai'r Cadeirydd yn mynychu y ddau Is-Bwyllgor

Daeth y Cyfarfod Blyneddol i ben am 7.45

Agenda Cyngor Llawn

Broses cyfethol i ward Glasinfryn /Pentir yn sgil ymddiswyddiad Cyng Richard Gwynedd Roberts

Derbyn cofnodion 12fed o Ebrill 2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid

Ceisiadau Cynllunio

C18/0295/25/LL Codi estyniad deulawr cefn Y Bwthyn Ty'n Lon Treborth LL57 2NJ

C18/0312/25/LL Codi anecs un llofft un llawr 2, Maes Mawr Penrhosgarnedd LL57 2LR

Derbyn/mabwysiadu

- Derbyn addasiad o fewn y Rheolau Sylfaennol

Prydles Canolfan Penrhosgarnedd /

Datblygu Ysgol y Faenol / Canolfan Gymunedol

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
- Adroddiad
 - Hysbysfyrddau datblygiad Ysb Gwynedd
 - Mapiau Cost argraffu ar gyfer Treborth a Ysb Gwynedd
 - Fynwent
 - Torri gwair ychwanegol
 - Nosweithiau cyfarfodydd
 - Cyngor llawn Ail Nos Iau y mis ar hyn o bryd
 - Is Bwyllgor Cyllid Nos Fercher olaf y mis ar hyn o bryd
 - Is Bwyllgor asedau Nosweithiau yn amrywio a ddim bob mis

Materion y Cynghorwyr

Lowri James Llywodraeth Cymru a'r Grid Cenedlaethol yn cyd-weithio i ymchwilio i'r potensial cael trydedd pont dros y Fenai fyddai yn cario ceblau trydan yn ogystal a thraffig.

James Griffiths Gyda golwg ar faterion gan y cynghorwyr! Hoffwn gael gwybod gan Gwynedd, yng ngoleuni'r ffaith mai dim ond unwaith bob tair wythnos y mae ein biniau gwastraff ty yn cael eu gwagio a chan nad wyf wedi clywed am ddiswyddo y criwiau fyddai'n gwagio yn wythnosol, beth yw gwaith y dynion hyn bellach?

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR YR 12/04/2018

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 12^{fed} o Ebrill 2018 yn Parc Menai am 7pm

Presennol:

Y Cyng. R Jones, J. Griffiths, R G. Roberts, L James, J Pierce, B Jones, C. Hughes, D Jones-Morris, M Baines, a T Anwyl-Williams
E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, D W Jones a H Griffiths

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os cyfyd yr angen
Gan fod Prydles Canolfan Penrhosgarnedd ar yr Agenda, nodwyd a chofnodwyd fod Cyng Richard Jones yn drysorydd y Ganolfan a fod y Cyng M Baines yn gadeirydd y Ganolfan
Nodwyd fod Cyng T A Williams yn cynrychioli y Cyngor Pentir ar Bwyllgor Rheoli y Ganolfan
Nodwyd fod Cyng L A James yn cynrychioli y Cyngor ar fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Faenol

Gofynnwyd caniatad y Cyngor i newid ychydig ar yr Agenda a gadael trafod y Ganolfan fel y peth olaf. Cytunwyd

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 28-03 - 18

Adroddiad ariannol Yr adroddiad yn dangos £18,048.13 yn y banc ond bod £5,645.86 wedi ei dalu allan ond heb eu cyflwyno i'r Banc £12,402.27 felly oedd ein sefyllfa ariannol gywir.
Ceisiadau Ad 137 'Roedd Cais Grwp Ioga Glasinfryn wedi ei ail-gyflwyno ac argymellwyd cyfrannu £300 iddynt. Mi oedd cais o Clwb Peldroed Penrhosgarnedd ar gyfer Bl ariannol 2018-19 ond dim manolen wedi cyrraedd eto.

Taliadau 'Roedd Costau Gofalwraig a gosod Hysbysfwrdd y Capel wedi ein cyrraedd yn hwyr ag argymhellwyd eu talu ynhyd a Chostau y Clerc a chostau Cyfrifwyr am weinyddu cyflog y Clerc a ad-ennill TAW **Cytunwyd i'r Clerc eu talu**

Adroddiad Ariannol 2017-18

Cyfrifon 17-18 Popeth mwy neu lai yn barod i fynd at y cyfrifwyr

Cyfrifwyr Cytunwyd gofyn i Gwmni Hughes Jones Dyson ddarparu'r cyfrifon a thalu iddynt am eu gwaith llynedd o £300 + TAW

Archwilwyr mewnol Adroddodd y Clerc iddo dderbyn rhestr o'r dogfennau oedd angen eu anfon gyda'r Cyfrifon i'r Cyngor Gwynedd oedd wedi cynnig gwasanaethu fel Archwilwyr Mewnol.

Credai y byddai'r gost o'i gymharu a costau Mr John D Roberts wedi dyblu. Y Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir ag anfon llythyr swyddogol yn gofyn iddynt ymgymeryd a'r gwaith

Prydles canolfan Penrhos / Gamlins

Yn dilyn y datblygiadau ynglyn ag Ysgol Y Faenol a effaith hynny ar Y Ganolfan teimlwyd fod arwyddo y brydles a chael cyfarwyddyd cyfreithiol yn hanfodol ag yn fater o frys bellach.

Gan fod ganddynt brofiad o ddelio a Chwmni Gamlins / Prydlesoedd eraill cynnigwyd fod Cyng Lowri James, Cyng Dafydd Jones-Morris ynghyd a'r Clerc a'r Cadeirydd presennol y Cyngor Llawn Cyng Cynrig E Hughes yn cyfarfod a Mr Vernon Oliver o Cwmni Gamlins

Is Bwyllgorau Eu strwythur - Cytunwyd unwaith eto gohirio trafodi y pwnc yma

Adolygu Rheolau sefydlog - Esbonwyd fod yr angen i adolygu cymal o fewn y rheolau sefydlog wedi ei adnabod ers bron i ddwy flynedd ond heb ei weithredu sef cymal 13.5 gan newid y geiriad i ddarllen *Gweithred cyntaf cyfarfod cyntaf pob pwyllgor yw penodi Cadeirydd a fydd yn parhau yn ei swydd am gyfnod o ddwy flynedd.*

Ychwanegu cymal 13.5.1 *Mae angen cadarnhau swyddi yn flynyddol yn y Cyfarfod Blynyddol*

Ceisiadau Cynllunio C18/0243/25/LL Cais codi dau dy arwahan gyda pharcio a gerddi cysylltiedig Goetre Uchaf Penrhosgarnedd LL57 2NT

Gwrthwynebu ar sail ei bod yn groes i'w cais gwreiddiol ble 'roedd addewid o lecynnau gwyrdd i hamddena a bod hyn yn engraifft o Or-ddatblygu

- C18/0244/25/LL Cais codi chwech ty newydd 4 ty arwahan a 2 dy par gyda pharcio a gerddi cysylltiedig Goetre Uchaf Penrhosgarnedd LL57 2NT

Gwrthwynebu eto ar sail ei bod yn groes i'w cais gwreiddiol ble 'roedd addewid o lecynnau gwyrdd i hamddena a bod hyn yn engraifft o Or-ddatblygu. Yn ychwanegol credai rhai fod y llecyn hwn tu allan i Ffin Cynllun Datblygu ar y Cyd Gwynedd ag Ynys –Mon a hefyd consyrn fod cyflenwadau Trydan a pibellau Carffosiaeth dan wyneb y llecyn hwn

Y Wefan Mae'r Wefan yn fyw. Mae addewid wedi ei roi y bydd unrhyw ychwanegiad ddymunwn ei weld yn ymddangos o fewn 24 awr. **Croesawyd y neges a diolchwyd i'r Cyng L James am ei gwaith**

Materion y Clerc

Diweddariad ar goed fynwent yr eglwys - Y ddwy goeden agosaf at y Capel wedi eu torri a'i clirio

Materion y Cynghorwyr

Cyng Cynrig E Hughes a Jean Pierce **Biniau Halen**

Mynegwyd pryder ynglyn a sefyllfa/safbwynt Cyngor Cymuned Pentir a'i diffyg penderfyniad parthed derbyn neu wrthod cyfrifoldeb ynglyn a'r mater **Clerc i dderbyn prisiau gan Cyngor Gwynedd a holi Clerc Cyngor Llanddeiniolen ynglyn ag yswiriant.**

Cyng James Griffiths **Ysbyty Minffordd a Hendre Wen / Glanadda**

Adroddwyd tra nad yw'r lleoliadau o fewn ardal Pentir mae'n sicr yn ymharu ar drigolion yr ardal gan fod cyflwr y ffordd mor wael a llinellau gwyn ar y cyffyrdd yn anodd eu gweld. Ychwanegodd y Cyng JG fod sbwriel aruthrol yn cael ei waredu rhwng Bont Glasinfryn a Felin hen **Clerc i gysylltu a Gwynedd**

Cyng Menna Baines **Biniau baw cwn / Glasinfryn a cysgodfan Cae Garnedd**

'Roedd wedi gwneud cais i gael biniau baw cwn ychwanegol yn Glasinfryn ond hefyd cafwyd ar ddeallt fod angen rhai hefyd ar Treborth a Pentir. Y Clerc wedi cael ar ddeallt nad yw'r Cyngor Sir yn gosod rhai ychwanegol ond eu bod yn cyfeirio y mater i'r Cyngorau Cymuned

'Roedd Cyng M B hefyd mewn trafodaethau gyda'r adran trafndiaeth ynglyn a chysgodfan/safle bws wrth Cae Garnedd. Esbonwyd fod Cyngor Pentir eisoes wedi gwneud ymholiadau ag yn fodlon talu am yr offer boed hynny yn gysgodfan neu polyn safle

Materion pellach y Clerc

Gohebiaethau

Prydles Canolfan Penrhos Yn dilyn derbyn gwahoddiad i drafod prydles y Ganolfan oedd Cwmni Gamlins wedi ei dderbyn ar ein rhan cytunwyd yn yr Is-bwyllgor Cyllid fod dirprwyaeth o'r Cyngor yn cyfarfod a'r Cwmni i drafod y ffordd ymlaen.

O'r Is-Bwyllor Cyllid dirpriwyd Cyng Lowri James a Cyng Dafydd Jones-Morris oherwydd ei profiad blaenorol yn ymdrin a phrydles y Swyddfa a gyda Cwmni Gamlins a'r Cadeirydd presennol ynghyd a'r Clerc i gyfarfod a Mr V Oliver

Trefnodd y Clerc iddynt gyfarfod 4ydd o Ebrill

Cyfarfod a Gamlins

Bu i'r tri Cynghorydd a'r Clerc gyfarfod a Mr Vernon Oliver ar y 4ydd o Ebrill i drafod y brydles newydd ar gyfer y Ganolfan.

Daeth yn eitha amlwg nad oedd Cyngor Pentir dros y blynyddoedd wedi bod yn derbyn y dogfennau disgwylidig fel adroddiadau blynyddol, cyfrifon na chynlluniau cynnal a chadw gan Bwyllgor Rheoli Canolfan Penrhos yn unol a thelerau yr hen brydles nac yn wir Canolfan Glasinfryn.

Clerc i wneud ymholiadau i gyfarch hyn drwy gysylltu ag ysgrfennyddion y ddwy Ganolfan

Gallai y diffyg hwn fod wedi golygu y gallai Cyngor Gwynedd fod wedi bod mewn sefyllfa i ddod a Prydles Canolfan Penrhos i ben ar unrhyw adeg, tae ganddynt dystiolaeth nad oedd y ganolfan ag offer y ganolfan yn cael eu archwyllo yn rheolaidd a'i cadw mewn cyflwr derbyniol ac yn unol a'r gofynion statudol e.e. rheolaeth asbestos, tan a legionella.

Nodwyd yn yr un modd bod rhaid felly i ni ofalu fod y dyletswyddau angenrheidiol yn cael eu dilyn gyda'r brydles newydd.

Bydd Mr Oliver yn symud ymlaen i ddarparu y dogfennau angenrheidiol ar gyfer eu anfon yn ol i Cyngor Gwynedd unwaith y byddwn yn dychwelyd eu telerau i weithredu.

Cyng Richard Gwynedd Roberts

Ar ddiwedd y cyfarfod datganodd y Cynghorydd Richard G Roberts ei fod wedi dod i'r penderfyniad ei fod am ymddiswyddo o'i swydd fel Cynghorydd ag mae hwn fyddai ei gyfarfod olaf ar ol blynyddoedd lawer yn gwasanaethu ei gymuned.

Talwyd teyrnged iddo gan y Cadeirydd, a hefyd gan y Cyng Lowri James, y ddau yn amlinnellu eu edmygedd ohono nid yn unig fel person, a chynghorydd ei gymuned, ond am ei sylwadau craff a'i gyngor doeth, ag amserol yn aml, pan fyddai trafodaethau yn cychwyn mynd oddiar y trywydd cywir.

Dymunwyd yn dda iddo yn ei 'ymddeoliad' o'r Cyngor